

PRIFFYRDD, CYMRU

201- Rhif

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN GWYRO PRIFFYRDD (SAIN TATHAN, BRO MORGANNWG) 201-

Gwnaed 201-

Yn dod i rym 201-

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”) ac adran 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980(2) a phob pŵer galluogi arall(3).

1. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “Y Cyngor (*“the Council”*) yw Cyngor Bro Morgannwg;

ystyr “y datblygwr” (*“the developer”*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi iddo

ystyr “y plan a adneuwyd” (*“the deposited plan”*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Gwyro Priffyrdd (Sain Tathan, Bro Morgannwg) 201-” ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi gwyro'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adneuwyd, a chau'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â lliw du solet ar y plan a adneuwyd, a hwythau wedi eu bodloni bod angen y gwyro a'r cau i alluogi gwneud y datblygiad fel a ddisgrifir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r briffordd wedi ei gwella, a ddisgrifir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog ar y plan a adneuwyd, sef priffyrdd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980, sydd i'w cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drostynt.

4. Crëir, mewn cysylltiad â chau'r fynedfa breifat a ddisgrifir yn Atodlen 2(2) i'r Gorchymyn hwn, mynedfa newydd fel a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni cheir gwyro'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, ac ni cheir cau'r rhannau o fynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn hyd nes bo—

(a) y datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a'r briffordd wedi ei gwella a ddisgrifir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a'r fynedfa breifat newydd a ddisgrifir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(b) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, cynlluniau sy'n dangos y modd y caiff y briffordd ei gwyro a'i gwella ac y caeir y mynedfeydd preifat;

(c) y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 6 i'r gorchymyn hwn wedi ei gychwyn a'r datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor mewn ysgrifen o'r angen i gau a gwyro'r briffordd a chau'r mynedfeydd preifat er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd ymlaen; ac

(ch) y Cyngor wedi cadarnhau wrth y datblygwr mewn ysgrifen bod darpariaethau (a) (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

6. Os bydd, yn union cyn gwyro, cau neu wella'r rhannau o briffordd neu'r mynedfeydd preifat yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yn parhau i fod â'r un hawliau o ran yr offer hynny ag a oedd ganddynt cyn y gwyro, cau neu wella.

7. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel parhad y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben..

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990, a'i enw fydd Gorchymyn Gwyro Priffyrdd (Sain Tathan, Bro Morgannwg) 201-

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

200-

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

- (1) 1990 p.8.
- (2) 1980 p.66
- (3) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

YR ATODLENNI

Rhannau o briffordd i'r gogledd o'r eiddo a elwir "Seaview" yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwyro o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw rhwng Ffordd Llanilltud a'r B4265 sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 144 metr a'i led ar y mwyaf yn 5 metr a ddangosir â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r fynedfa breifat sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

(1) Mynedfa breifat i dir amaethyddol i'r de o'r rheilffordd (A.O. 3159), a leolir yng nghornel ogledd-orllewinol croesffordd y ffordd ddiddosbarth rhwng Ffordd Llanilltud a'r B4265 bresennol, sy'n ymestyn o bwynt 70 metr i'r gogledd o'r eiddo a elwir "Seaview" i'r gogledd am bellter o 5 metr ac sy'n 5 metr o led, ac a ddangosir mewn lliw du solet ar y plan a adnewwyd.

(2) Mynedfa breifat i dir amaethyddol i'r de o'r rheilffordd (A.O. 5553), a leolir yng nghornel ogledd-ddwyreiniol croesffordd y ffordd ddiddosbarth rhwng Ffordd Llanilltud a'r B4265 bresennol, sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r gogledd o'r eiddo a elwir "Seaview" i'r gogledd am bellter o 6 metr ac sy'n 5 metr o led, ac a ddangosir mewn lliw du solet ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r rhan newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd sy'n ymestyn o bwynt 251 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir "Seaview", i gyfeiriad de-orllewinol at gyffordd â ffordd fynediad arfaethedig newydd at yr eiddo a elwir y "Batslays" gan barhau i gyfeiriad y de at gyffordd â gwelliant newydd arfaethedig y B4265, a ddangosir â dotwaith ar y plan a adnewwyd

ATODLEN 4

Disgrifiad o'r rhan o fynedfa breifat newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Mynedfa breifat i dir amaethyddol i'r de o'r rheilffordd, i'r dwyrain o'r bont reilffordd (A.O. 5553), sy'n ymestyn o bwynt 271 metr i'r dwyrain o'r eiddo a elwir "Seaview," i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol am 12 metr fan bellaf, ac a ddangosir â llinellau lletraws main ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 5

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw sy'n ymestyn o bwynt 245 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir "Seaview", i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol, am oddeutu 57 metr, ac a ddangosir â llinellau rhesog ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 6

Y Datblygiad

Gwyro priffyrdd, cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd preifat newydd mewn cysylltiad â'r cynllun i sefydlu Coleg Technegol Amddiffyn a datblygu a gwella Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2009 o dan y rhifau cyfeirnod P/DC/2009/00500/OUT a P/DC/2009/00501/OUT.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN GWYRO PRIFFYRDD (SAIN TATHAN, BRO MORGANNWG)

201-

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 125 o ddeddf Priffyrdd 1980 i awdurdodi gwyro'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; awdurdodi cau'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn; darparu ar gyfer y rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn; darparu ar gyfer mynedfa breifat newydd a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn a gwella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir gwyro'r briffordd ac eithrio ar gyfer galluogi gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 6 i'r Hysbysiad hwn. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu i'r darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn, a'r briffordd wedi ei gwella, a ddisgrifir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn, ddod yn briffyrdd sydd i'w cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd. Bydd y Gorchymyn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os dirymir y caniatâd cynllunio.

Yn ystod y 28 diwrnod o 7 Ionawr 2010 ymlaen, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd, yn ddi-dâl yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Doc, Dociau'r Barri, Y Barri CF63 4RT ac yn Llyfrgell Gyhoeddus Llanilltud Fawr, Boverton Road, Llanilltud Fawr CF61 1XZ, neu gellir eu cael yn ddi-dâl o'r cyfeiriad isod.

Yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod a grybwyllir uchod, caiff unrhyw berson wrthwynebu gwneud y Gorchymyn drwy hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Y Gangen Gorchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, hwyrach y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill bydd yr wybodaeth y byddwch wedi ei rhoi i ni, a'ch data personol, yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/ datblygwr ac, yn achlysurol, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ac eithrio pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion y byddwch wedi tynnu ein sylw atynt. Os yw Gorchymyn Gwyro yn mynd yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob

gohebiaeth yn cael ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac yn cael ei chadw wedyn yn y Llyfrgell YC, lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth / Deddfwriaeth ddrafft / Offerynnau Anstatudol Drafft / Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Y Gangen Gorchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

M D BURNELL

Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

YR ATODLENNI

Rhannau o briffordd i'r gogledd o'r eiddo a elwir "Seaview" yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwyrho o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw rhwng Ffordd Llanilltud a'r B4265 sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 144 metr a'i led ar y mwyaf yn 5 metr a ddangosir â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r fynedfa breifat sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

(1) Mynedfa breifat i dir amaethyddol i'r de o'r rheilffordd (A.O. 3159), a leolir yng nghornel ogledd-orllewinol croesffordd y ffordd ddiddosbarth rhwng Ffordd Llanilltud a'r B4265 bresennol, sy'n ymestyn o bwynt 70 metr i'r gogledd o'r eiddo a elwir "Seaview" i'r gogledd am bellter o 5 metr ac sy'n 5 metr o led, ac a ddangosir mewn lliw du solet ar y plan a adnewwyd.

(2) Mynedfa breifat i dir amaethyddol i'r de o'r rheilffordd (A.O. 5553), a leolir yng nghornel ogledd-ddwyreiniol croesffordd y ffordd ddiddosbarth rhwng Ffordd Llanilltud a'r B4265 bresennol, sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r gogledd o'r eiddo a elwir "Seaview"

i'r gogledd am bellter o 6 metr ac sy'n 5 metr o led, ac a ddangosir mewn lliw du solet ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r rhan newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd sy'n ymestyn o bwynt 251 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir "Seaview", i gyfeiriad de-orllewinol at gyffordd â ffordd fynediad arfaethedig newydd at yr eiddo a elwir y "Batslays" gan barhau i gyfeiriad y de at gyffordd â gwelliant newydd arfaethedig y B4265, a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd

ATODLEN 4

Disgrifiad o'r rhan o fynedfa breifat newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Mynedfa breifat i dir amaethyddol i'r de o'r rheilffordd, i'r dwyrain o'r bont reilffordd (A.O. 5553), sy'n ymestyn o bwynt 271 metr i'r dwyrain o'r eiddo a elwir "Seaview," i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol am 12 metr fan bellaf, ac a ddangosir â llinellau lletraws main ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 5

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw sy'n ymestyn o bwynt 245 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir "Seaview", i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol, am oddeutu 57 metr, ac a ddangosir â llinellau rhesog ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 6

Y Datblygiad

Gwyro priffyrdd, cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd preifat newydd mewn cysylltiad â'r cynllun i sefydlu Coleg Technegol Amddiffyn a datblygu a gwella Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2009 o dan y rhifau cyfeirnod P/DC/2009/00500/OUT a P/DC/2009/00501/OUT.